RHESTR O'R DAMWEINIAU

YN CHWARELAU

Dinorwig a'r Penrhyn,

O'R

DECHREU HYD YN BRESENNOL.

(Allan o'r 'Herald Cymraeg' am 1879.)

CAERNARFON:
Argraphwyd gan J. Evans & Co., Commercial Steam Printing Works, Heol Fawr.

CYNAUAF DAMWAIN:

SEF

Rhestr o'r Damweiniau

YN CHWARELAU

DINORWIG A'R PENRHYN,

O'R

DECHREU HYD YN BRESENNOL.

(Allan o'r 'Herald Cymraeg' am 1879.)

CAERNARFON:
ARGRAPHWYD GAN JOHN EVANS A'I GYF.,
HEOL FAWR.

CYNAUAF DAMWAIN

CHWARELAU DINORWIG A'R PENRHYN.

Yn y tudalenau a ganlyn yr ydym yn cyflwyno i sylw y darllenydd restr o'r personau hyny a syrthiasant yn ebyrth i wahanol ddamweiniau yn chwarelau Dinorwig a'r Penrhyn. Hyderwn y bydd yr ymgais hwn i gadw enwau y nifer lnosog o feibion llafur a gyfarfyddasant âg angau disyfyd yn y chwarelau uchod, yn ddyddorol a derbyniol gan lawer. Gwelir fod y rhestr yn ymestyn dros dymhor maith a thra phwysig yn nglyn â masnach a thrafnidiaeth ein gwlad. Arweinir ni yn ol mor bell a'r flwyddyn 1822. Y brenhin William IV. oedd yn teyrnasu ar orsedd Lloegr y pryd hwnw. Prin yr oedd galar a gofid y genedl drosodd, oblegid marw Syr Walter Scott, y ffug-hanesydd hanesyddol penaf welodd Prydain erioed. Yn mhen pedair blynedd ar ol hyn yr esgynodd Victoria i'n gorsedd. Ni wyddai trigolion y dyddiau hyny ddim am freintiau llythyrdoll ceiniog, a chwim gerbydau y cledrffyrdd. Ar ol hyn y bu Cymru yn ferw gwibwrn gan bla y Siartiaid a therfysgoedd "Beca" a'i meibion. Deng mlynedd yn

ddiweddarach y dechreuodd pla Pusey—Tractariaeth—a gwenwyno yspryd a chredo Eglwys Loegr; ac un mlynedd ar ddeg cyn hyny yr ymladdwyd brwydrau bythgofiadwy yr Yd gan yr anfarwol Cobden, Bright, ac ereill o gewri Masnach Rydd.

Os ydym yn cofio yn iawn, nid oedd Cymru yn meddu ar newyddiadur Cymraeg i'w gwasanaethu y pryd yma, nac am lawer o flynyddau ar ol hyny. 'Seren Gomer,' 'Y Gwladgarwr,' a misolion ereill, oedd cyfryngau gwybodaeth, hyd yn nod o drindod digwyddiadau bywyd, nid amgen, genedigaethau, priodasau, a marwolaethau. Weithiau bydd ai yr hen oheb-wyr syml a diniwaid yn nodi natur y far wolaeth. Yr oedd y flwyddyn 1822 mor amddifad o bob peth y dyddiau hyn ag ydyw un o Ynysoedd Mor y De neu randiroedd gwyllt America Ddeheuol yn bresennol. Gwir fod gwareiddiad, gwybodaeth, a chrefydd i'w cael yn Nghymru, ond nis gall nad annherffaith iawn oedd yr oes hono yn y naill a'r llall. Hyd yma y mae ein cofnodion yn cyrhaedd; pa nifer oedd wedi eu lladd trwy ddamweiniau cyn hyn, nis gallwn ddyfalu; diau nad oes wybodaeth nac atebiad i'r gofyniad i'w gael, ac nis gall fod rhyw lawer o bwysigrwydd yn hyny. Er 1822 y mae ein cofnodion yn llawn a manwl, ac y mae genym sail i dybio eu bod yn hollol gywir yn eu hamseriadau.

Ond talu sylw lled fanwl i'r cronicl, gwelir fod y damweiniau yn amrywio cryn lawer o ran natur. Y mae y dull o weithio peiriannau, a threfniant y gwaith, wedi newid llawer o fewn corph yr hanner canrif ddiweddaf. Yn ol y rhestr argraphedig, collodd amryw eu bywydau drwy doriad rhaffau y gledr-allt *(incline)*. Rhaffau carth a ddefnyddid am lawer o flynyddau i ollwng y cerbydau llawnion i lawr o orielau y mynydd, ac i dynu y rhai gweigion i'r lan; bellach y mae y gwŷn yn erbyn y rhai hyny wedi darfod, a damweiniau oddiwrth doriad rhaffau metelaidd wedi peidio a bod. Arferir a dyweyd yn fynych fod cymydogion lleoedd peryglus yn myned yn fuan yn ddiystyr o'r sefyllfa y byddont ynddi. Megis y cynefina dynion yn gwneuthur drwg, felly hefyd y cynefinant â safleoedd o berygl; diystyrant gynghorion i fod yn ochelgar; byrbwyll ac ehud gweithreda llawer yn fynych, er yn gwybod y canlyniadau. Rhydd y colofnau dan sylw gadarnhad i wirionedd y dystiolaeth, "mai annhrefn a diofalwch bron yn ddieithriad sydd yn dwyn damweiniau o angylch." Yr elfeniad byr a ganlyn a ddengys hyn mewn goleuni hollol glir:—Mygodd 3, syrthiodd 6 o dan y cerbydau; torodd y rhaffau crogedig wrth y graig ar 6; syrthiodd brigau a darnau o'r clogwyni uwchben ar 55; lladdwyd 42 drwy, naill ai i'r ergydion danio, neu i gerig yr

ergydion syrthio arnynt; boddodd 9; a syrthiodd 31 dros yr ymylon. Pe y manwl chwilid i achosion y ddau gant a phedwar ar ddeg ar hugain o ddamweiniau a gymerodd le yn Dinorwig o fewn y tri ugain mlynedd diweddaf, credwn y ceid allan fod yr achos o'r oll yn mron yn gorwedd wrth ddrws y personau eu hunain, neu wrth ddrws mân a mawr arolygwyr y gwaith. O du y dynion, yn fynych, bydd diofalwch, byrbwylldra, hyfdra: y ffrwyth sydd yn gwastadol dyfu ar y fath lanerchau sydd chwerw iawn. Yr arolygwyr drachefn a arferant fod yn dra ymarhous i wneyd llwybrau newyddion i'r gwageni ar yr orielau, ac mewn canlyniad, wrth gael eu gorfodi i gerdded yr ymylon, syrthio dros y dibyn i'r dyfnder! Pe yr arferasid mwy o ofal gyda'r cerbydresi, ni buasai cynifer a chwech yn myned yn aberth o dan eu pwysau. Gwelir fod pymtheg a deugain wedi marw oblegid cwymp y brigau a syrthiad darnau o'r clogwyni uwchben. Efallai nad oes un ddyledswydd yn cael ei hesgeuluso, hyd yn nod y dyddiau hyn, a manwl arolygiaeth y brigau a'r clogwyni. Dilys yw mai gwaith y goruchwylwyr ydyw hyn; a phe y rhoddasid y sylw dyledus i hynyna, atolwg, pa nifer o fywydau a arbedasid? Cwympodd cewri lawer o ddynion yn ebyrth i'r "tanio," a llu mawr a syrthiasant dros y clogwyni i beidio a chyffro mwy.

Ymddengys i ni fod cario yn mlaen weithiau mawrion o fath ein chwarelau, lle y llafuria miloedd o ddynion, heb reolau arbenig, argraphedig, ac awdurdodedig, yn orchwyl anmhosibl. Ond hyd y deallwn ni, hen arferion a "synwyr y fawd" ydyw deddfau ymarferol y chwarelwyr. Paham na cherir celfyddyd y chwarelau yn mlaen wrth reolau gwyddonol? Diau pe y tynid allan ddeddfau arbenig tuagat reoleiddio tyllu a thanio, crogi wrth raffau, ac olwynio cerbydau y gwahanol orielau, a bod cadwraeth fanwl o'r cyfryw yn rhwymedig ar bawb, a throsedd o un ohonynt yn dwyn cosb drom, odid fawr na byddai llawer o leihad yn nifer y damweiniau. Gan na wnaed hyn hyd yma gan y gweithwyr a'r meistriaid, da y gwnelai y Llywodraeth gymeryd y gwaith mewn llaw. Arferir yn gyffredin a phriodoli yr amryfal ddamweiniau a welsom i ymweliad neillduol ac uniongyrchol yr Hollalluog: Efe fydd wedi hyrddio dynion i'r byd arall, ac Efe fydd wedi ordeinio i'r rhaffau dori ac i'r tyllau danio. Ychydig o ystyriaeth bwyllog i'r croniel hwn o ffeithiau a ddengys dwyll y fath athrawiaeth. Na phriodoler damweiniau i Raglunaeth a gawsant fôd drwy annhrefn a diofalwch dynion: dysger doethineb, a rhodder gwrandawiad ufuddgar ac astud i lais eglur anystyriaeth a hyfdra. Byddai yr hen John Williams, tad y cerddor Hugh Peris, yn arfero

a dyweyd mai yr wythnos o flaen y talu y byddai y damweiniau yn ymweled â'r chwarel, a honai efe mai Iau o'r wythnos hono oedd eu dydd gwyl. Nid oes genym amser heddyw i roddi prawf ar dystiolaeth y gwr craff hwnw. Fodd bynag, y mae hyn yn amlwg: yr wythnos o flaen y talu ydyw yr un brysuraf o'r holl fis, ac efallai mai dydd Iau ydyw y prysuraf o ddyddiau yr wythnos hono. Rhaid priodoli damweiniau yr wythnos hono i or-brysurdeb, ar un llaw, i wneyd y cerig i fyny, ac annhrefn wrth gloddio y rhai hyny, a phan yn saethu. Os ydyw hyn yn wir, rhaid mai gwaith dyn ydyw y rhan helaethaf o'r digwyddiadau cyffrous a nodasom, ac efe o ganlyniad raid eu dwyn.

DAMWEINIAU YN CHWAREL DINORWIG, ARFON,

O 1822 HYD 1878.

1. John Griffiths, Cwm Eilir, Llanberis, Hydref 18, 1822.—Syrthio ugain llath yn Twll Dwndwr, Garet.
2. Hugh Williams, Ty Coch, Chwefror 21, 1823.—Malurio ei droed, a marw mewn canlyniad.
3. William Morris, Waen Gynfi, Mawrth 26, 1824.—Plyg o'r brig yn ymollwng arno mewn rhan o'r Garet.
4. Edward O. Price, Mawrth 31, 1824.—Yntau yr un modd a'r blaenorol, mewn rhan o'r Diffwys.
5. John Rowlands, Ddol (Llanrug, mae'n debygol), Gorphenaf, 15, 1824.—Twll daniodd arno, ond yn mha ran o'r gwaith nis gwyddom.
6. William J. Thomas Owen, Tachwedd 8, 1824.—Cael ei wasgu gan blyg.
7. David D. Abraham, Chwefror 25, 1825.—Lwmp o'r brig yn disgyn arno gan ei ladd yn y fan.
8. Emanuel Evans, Mai 11, 1825.—Rhan o'r graig yn ymollwng arno yn Clogwyn y Gigfran.
9. Owen Hughes, Dinorwig, Mawrth 26, 1826.—Syrthio can' llath yn yr Alltddu. Yr oedd yn dad i'r diweddar Is-oruchwyliwr Evan Hughes, Foel, Dinorwig.
10. John Jones, Mawrth 15, 1827.—Saer perthynol i'r gwaith. Bu foddi tra yn croesi llyn Peris at ei waith.
11. John Roberts, Foty, Ionawr 10, 1828.—Syrthio yn Brynllys.
12. Griffith J. Griffiths, Mai 14, 1828.—Ymollyngiad craig arw yn Twll Dwndwr, Garet.
13. John Evan Job, Penisa'rwaen, Mawrth 20. 1828.—Syrthio yn y Graich.
14. Thomas Williams, Ty'nymynydd, Chwefror 5, 1829.—Careg o'r brig yn ei daraw yn ei ben yn Twll Morgans.

15. William Parry, Ty'nygadlas, Ebrill 6, 1831.—Twll yn tanio arno yn Matilda.
16. Daniel Griffiths, Penisa'rwaen, Mai 17, 1832.—Syrthio dan y gwageni a gludant lechi drwy Glwtybont.
17. Thomas Jones, Ysgoldy, Dinorwig. Mawrth 10, 1832.—Syrthio pum' llath ar hugain yn yr Allt Ddu.
18. William Ellis, Y Foel, Mawrth 7, 1832.—Cael ei dynu i olwynion melin yr Allt Ddu.
19. Owen Evans, Llanllyfni, Ebrill 17, 1833.—Anafu ei ben.
20. Robert Ellis, Tan'rallt, Gerth, Mai 10, 1833.—Careg o'r brig yn ymollwng arno.
21. William Morris, Cae'r Gwyddel, Llanddeiniolen, Mai 30, 1833.—Cael ei daraw gan gareg oddiwrth ergyd. Yr oedd yn frawd i Owen Dinorwig.
22. Morris Pritchard, Cwmyglo, Mehefin 10, 1834.—Cael ei daraw gan gareg oddiwrth ergyd, mewn rhan o'r Diphwys.
23. Henry W. Morris, Hydref 12, 1834.—Yntau yr un modd.
24. William Jones, Mon, Ionawr 6, 1835.—Yr un modd a'r tri blaenorol.
25. Richard Jones, Penygaer, Llanddeiniolen, Mawrth 3, 1835.—Dryllio ei ben gyda careg oddiwrth ergyd yn Pone Lefel.
26. Trevor Williams, Gorphenaf 6, 1835.—Yntau yr un modd, ond nid ydym yn sicr yn mha ran o'r gwaith.
27. Morgan T. Morgans, Dinorwig, Hydref 23, 1835.—Pylor mewn hollt yn tanio arno yn Matilda.
28. Robert Williams, Ty'ntwll, Mai 10, 1836.—Ymollyngiad y graig arno.
29. David Williams, Clwtybont, Gorphenaf 8, 1836.—Rhaff ar incline Clwtybont yn tori, syrthiodd yntau dan y gwageni.
30. John Jones, Pantycelyn, Gorphenaf 12, 1836.—Malurio ei ben yn rhan o'r Diphwys.
31. Erasmus Owen, Rhagfyr 7, 1836.—Syrthio ddeugain troedfedd yn yr Allt Ddu.

32, 33. Richard Roberts, Bwlchgwynog, a W. J. Roberts, Mawrth 4, 1837.—Collodd y ddau eu bywydau yr un adeg trwy i graig ymollwng o'r tu ol i'r man lle yr oeddynt wedi sicrhau y rhaff, gan eu lladd yn y fan, yn Hafod Owen.
34. Owen Griffiths, Caernarfon, Ebrill 5, 1837.—Darn o'r brig yn ymollwng arno yn Hafod Owen.
35. David Jones, Waenwen, Bangor, Medi 5, 1838.—Syrthio 25 llath.
36. Robert D. Ellis, Cae Ddafydd, Ebenezer, Mai 18, 1838.—Cael ei daraw yn ei ben gan gareg oddiwrth ergyd yn mhonc Rowlar, Garet.
37. John Griffiths, Bangor, Mehefin 12, 1838.—Yr un modd a'r un blaenorol, yn y Diphwys.
38, 39.—Evan W. Price, Waenrhyddallt, a John E. Roberts, Penisa'rwaen, Awst 20, 1838.—A gyfarfuasant â'u diwedd yr un amser, drwy i'r graig ymollwng arnynt yn nhwll William Prys, Hafod Owen, ac ni lwyddwyd i fyned atynt am ddwy awr ar hugain.
40. William Jones, Tynewydd, Clwtybont, Ionawr 14, 1839.—Darn o'r graig yn ymollwng arno yn Brynglas, Allt Ddu.
41. William Foulkes, Clegir, Llanrug, Gorphenaf 6, 1839.—Dryllio ei ben yn y Braich.
42. Pierce Jones, Llwyncelyn, Llanberis, Gorphenaf 11, 1839.—A laddwyd yn Victoria.
43. Richard Hughes, Gwalchmai, Mon, Ionawr 20, 1840.—Y graig yn ymollwng arno yn Twll Dwndwr, Garet.
44. Evan J Evans, Tanyfoel, Ebenezer, Mawrth 10, 1840.—Twll yn tanio arno yn yr Allt Ddu.
45. Hugh Williams, Machine, Dinorwig, Ebrill 23, 1840.—Tra yr oedd yn gweithio gyda'i ben i lawr disgynodd careg o dop y clogwyn gan dori ei ben ymaith, yn mhonc Robin y Dre'.
46. William Jones, Garegwen, Llanberis, Mai 7, 1840.—Rhan o'r graig yn ymollwng gan ddryllio ei ben, yn Matilda.
47. Owen Ellis, Bryn Madog, Gorphenaf 6, 1840.—Bachgen bychan. Cyfarfu â'i ddiwedd trwy i gareg ddisgyn arno a'i ladd yn y fan, yn mhonc Rowlar, Garet.

48. William E. Williams, Penygongl, Clwtybont, Awst, 1840.—Rhaff *incline* uchaf Clwtybont yn tori, a lladdwyd ef drwy i falurion o'r gwageni ei daraw yn ei ben.
49. Evan Williams, Bryn Madog, Tachwedd 2, 1840.—Anafu ei gefn yn Swallow, Garet, a bu farw mewn canlyniad.
50. Griffith H. Evans, Cwmyglo, Tachwedd 10, 1840.—A laddwyd mewn rhan o'r Diphwys.
51. Ffoulk D. Ffoulkes, Rhagfyr 29, 1840.—Careg oddiwrth ergyd yn myned drwy ben ei "wal" gan ei ladd yn y fan, yn y Braich.
52. John Closs, Ty'nlon, Llanberis, Mehefin 8, 1841.—Syrthio yn y Diphwys.
53. William W. Price, Clwtybont, Gorphenaf 20, 1841.—Bachgen ieuanc a laddwyd yn mhonc Robin y Dre', trwy i ran o'r graig ymollwng arno.
54. Ioan Owen, Cerigllwydion, ger Llandinorwig, Ionawr 5, 1842.—A laddwyd trwy i bowdwr mewn hollt danio arno, yn Matilda.
55. John Hughes, Taicwmbrwynog, Llanberis, Ebrill, 1842.—A laddwyd yn Diphwys.
56. Thomas Parry, Rhosrug, Gorphenaf 23, 1842.—A laddwyd yn y Diphwys.
57. Ellis M. Jones, Glynrhonwy, Awst 2, 1842.—A laddwyd yn y Diphwys.
58. Morris Jones, Nant Penant, Rhagfyr 7, 1842.—A laddwyd yn chwarel Glynrhonwy.
59. John F. Evans, Penybwlch, Ionawr 22, 1843.—A laddwyd yn Twll Dwndwr.
60. John Thomas, Bryn'refail, Mai 25, 1843.—A laddwyd yn yr Allt Ddu.
61. Thomas Ellis, Yspytty, Mehefin 29, 1843.—Trwy ddamwain yn y rhan isaf o'r gwaith.
62. Edward W. Davies, Tyddyn Bach, Dinorwig, Medi 16, 1843.—Trwy i dwll danio arno yn yr Allt Ddu.
63. Henry E. Parry, Cwmyglo, Ebrill 6, 1844.—Trwy i bylor mewn hollt ffrwydro arno mewn rhan o'r Diphwys.
64. William Hughes, Trosycaeron, Mehefin 5, 1844.—Collodd ei fywyd trwy i raff incline Penrhydd, Garet, dori, ac yntau fyned rhwng y gwageni.

65. Robert R. Morris, Talybraich, Dinorwig, Mehefin 5, 1844.—Bachgen bychan a fu farw mewn canlyniad i syrthio o bonc Lefel i Swallow, Garet, dyfnder oddeutu pum' llath ar hugain.
66. Hugh M. Hughes, Penybwlch, Dinorwig, Medi 26, 1844.—Plyg yn ymollwng arno yn Sinc Penrhydd, Garet.
67. Henry R. Williams, Pen Hafodlas, Llanrug, Chwefror 19, 1845.—Llanc a gollodd ei fywyd trwy syrthio deg llath ar hugain, yn Matilda.
68. David J. J. Roberts, Ebrill 18, 1845.—A laddwyd trwy ddamwain yn y rhan isaf o'r gwaith.
69. Robert R. Evans, Bwlch Bach, Trosgol, Rhagfyr 31, 1845.—Bachgen ieuanc a gollodd ei fywyd trwy i ran o'r graig ymollwng arno yn yr Allt Ddu.
70. Griffith Roberts, Llanrug, Gorphenaf 11, 1845.—A laddwyd yn ddamweiniol yn y rhan isaf o'r gwaith.
71. Robert Williams, Pen Hafodlas, Llanrug, Chwefror 24, 1846.—Bu farw mewn canlyniad i ddamwain a'i cyfarfyddodd yn y chwarel ddyddiau yn flaenorol.
72. Robert Jones (neu "Robyn Nefyn" fel yr adwaenid ef gyntaf), Chwefror 26, 1846.—Rhan o'r graig yn ymollwng arno yn Twll Dwndwr, Garet.
73. Richard Jones, Nefyn, tad yr uchod, Mehefin 17, 1846.—Cael ei daraw yn ei ben gan gareg oddiwrth ergyd yn Mhonc yr Albion, y Braich.
74. William Griffiths, Rhostryfan, Tachwedd 9, 1846.—Dyn ieuanc cryf a gollodd ei fywyd trwy ddamwain yn Matilda.
75. Morris Jones, Rhostryfan, a brawd y diweddar is-oruchwyliwr Cadwaladr Jones, Dinorwig, Chwefror 3, 1847.—Dyn ieuanc cryf a gollodd ei fywyd trwy i ran o'r graig ymollwng arno, yn Matilda.
76. Owen Williams, Buartha, Llanrug, Ionawr 4, 1848.—Cyfarfu â'i ddiwedd ar allt isaf y Braich. Llwythwr llechau ydoedd wrth ei alwedigaeth.

77. John Williams, Waenfawr, Ebrill 12, 1848.—Cyfarfu â'i angau yn y rhan isaf o'r gwaith.
78. Owen W. Williams, Hafod Gynfaen, Gorphenaf 14, 1848.—Syrthio o dop clogwyn, ond nis gwyddom yn mha ran o'r chwarel.
79. David G. Jones, Stamps;
80. Griffith D. Griffith (ei fab);
81. Owen W. Evans, Cwm-y-glo;
82. William W. Evans, brawd yr uchod;
83. John J. Williams, Cwm-y glo; a
84. Thomas Parry, Parc, Mehefin 23, 1848.—Cyfarfu y chwech uchod â'u hangau yr un amser trwy foddi yn llyn Padarn, ar foreu y dyddiad uchod, tra yn dyfod mewn cwch at eu gwaith o ardal Cwmyglo. Ymddengys fod dwyreinwynt cryf yn chwythu ar y pryd, ac i'w cwch gael ei ddymchwel, a bu yr oll oedd yn y cwch foddi oddigerth un, yr hwn a lwyddodd i nofio i'r lan. Yr oedd ugeiniau o'u cydweithwyr yn gweled y ddamwain, ond yn analluog i estyn unrhyw gynnorthwy i'r trueiniaid. Claddwyd hwy oll yr un diwrnod yn mynwent henafol Llanrug.
85. Richard Jones, Aberffraw, Mon, Medi 22, 1848.—Syrthio o dop clogwyn, ond nis gwyddom yn mha ran o'r chwarel.
86. David Williams, Bangor, Rhagfyr 18, 1848.—Tori asgwrn ei ben, ond nis gallwn nodi yn mha ran o'r gwaith y cymerodd y ddamwain hon eto le.
87. John Nathanael Griffiths, Awst 21, 1849.—Cyfarfu â'i angau yn y rhan isaf o'r chwarel.
88. Owen Roberts, Caernarfon, Awst 4, 1849.—Collodd y person hwn eto ei fywyd yn y rhan isaf o'r gwaith.
89. Owen Williams, Hafod, Llanberis, Gorphenaf 14, 1848.—Cafwyd ei gorph am chwech o'r gloch y boreu ar waelod y chwarel, ond ni chafwyd gwybodaeth pa fodd y cymerodd y ddamwain le.
90. Patrick Ryan, Hydref 19, 1849.—Collodd ei fywyd trwy ddamwain yn y Braich.
91. Richard Hughes, Erw y Ci, Llanrug, Tach. 12, 1849.—Collodd ei fywyd yn y rhan isaf o'r gwaith.

92. Pierce Morris, Cerigynyth, Dinorwig, a thad Mr David Pierce, Yr Afr Aur, Caernarfon, Chwefror 3, 1850.—Bu farw mewn canlyniad i dori ei goes yn Sinc Penrhydd, Garet.
93. Richard J. Pritchard, Bontnewydd, ger Caernarfon, Mawrth 13, 1850.—Colledd ei fywyd yn Victoria.
94. Richard Evans, Gerlan Bach, Clwtybont, Rhagfyr 10, 1850.—Cael ei daraw gan gareg oddiwrth ergyd yn Tophet, Garet.
95. Samson Jones, Llanddanielfab, Mon, Ionawr 10, 1851.—Cael ei ddirwasgu rhwng plygion mawrion yn Matilda.
96. Griffith Hughes, Waenfawr, Mawrth 5, 1851.—Collodd ei fywyd yn y Diphwys.
97. David Williams, Bryn Melyn, Waenfawr, Mawrth 10, 1851.—Careg o'r clogwyn yn ei daraw yn Twll Dwndwr, Garet.
98. William L. Williams, Groeslon, Rhiwen, Mawrth 6, 1851.—Twll yn tanio arno yn Terfyn Bach, Braich.
99. Evan E. Jones (gwehydd), gynt Hafod Garegog, Clwtybont, Mawrth 17, 1851.—Careg o'r clogwyn yn dryllio ei ben yn Matilda.
100. William O. Pierce, Waenfawr, Medi 12, 1851.—Collodd ei fywyd yn Victoria.
101. William W. Evans, Waenfawr, Ionawr 14, 1852.—Collodd y person hwn eto ei fywyd yn Victoria.
102. Richard Owen, miner, Cefnywaen, brodor o Fon, Mawrth, 1852.—Rhan o'r graig yn ymollwng arno yn yr Allt Ddu.
103. John M. Roberts, Rail, Llandwrog, Mawrth 5, 1852.—Collodd ei fywyd yn Victoria.
104. Robert Jones, Store House, Llandwrog, Mai 21, 1852.—Cyfarfyddodd â'i angau drwy syrthio oddiar y gerbydres sydd yn cludo llechau o'r chwarel i Borthdinorwig.
105. John Roberts, Clwtybont, brodor o Llanerchymedd, Mehefin 4, 1852.—Bu farw mewn canlyniad i gael malurio ei goes yn y Braich.
106. William, mab John Pugh Daniel, Awst, 1852.—Nis gallwn gofnodi enw trigfan y person hwn, na'r lle y cyfarfyddodd â'r ddamwain.

107. John Roberts, Caernarfon, Hydref, 1852.—Nid ydym yn gwybod yn mha ran o'r gwaith y cyfarfyddodd y person hwn eto â'i ddiwedd.
108. Robert J. Griffiths, Caernarfon, Tachwedd 5, 1852.—Cyfarfyddodd â'i angau yn y rhan isaf o'r gwaith.
109. John E. Williams, Rhydyfwch, Tachwedd 1, 1852.—Collodd ei fywyd yn y Braich.
110. Robert Jones, Tan-y-bryn, Dinorwig, a
111. William W. Prichards, Bontnewydd, ger Caernarfon, Ionawr 20, 1853.—Cyfarfu y ddau â damwain angeuol yn Victoria.
112. William Prys, Llanrug, Mai 9, 1853.—Hen wr dros bedwar ugain oed a fu farw mewn canlyniad i gael ei anafu yn y chwarel rai miseedd yn flaenorol.
113. John Jones, Clwtybont, brodor o Fangor, Chwefror 11, 1853.—Bu farw mewn canlyniad i gael tori ei goes yn Hafod Owain.
114. William Hughes, gwas a fu yn Mryn Adda, Gorphenaf 12, 1853.—Ni wyddom yn mha ran o'r chwarel y cyfarfu â'i angau.
115. John Owens, Cae'rhedyn, Clwtybont, Rhagfyr 13, 1853.—Bu farw mewn canlyniad i syrthio dwy lath mewn twll yn ochr yr Elidir.
116. Catherine Williams, merch ieuanc o ardal Clynnog, Medi 13, 1853.—Cyfarfu â'i hangau tra yn edrych y chwarel trwy i ddarn o'r graig ddyrchwel i lawr a'i goddiweddyd, gan ei lladd yn y fan.
117. William Williams, Bryntcg, Clwtybont (Llanbedr, gynt), Chwefror 17, 1854.—Collodd ei fywyd trwy i gareg o'r brig ymollwng gan ei daraw yn ei ben a'i ladd yn y fan, mewn lle a elwir chwarel Sion Morgan.
118. James Owen, Penbrynmawr, Fachwen, Mawrth 25, 1854.—Lladdwyd ef gan gareg oddiwrth ergyd a'i tarawodd yn ei ben yn ngwaelod y Braich.
119. Rowland Roberts, mab-yn-nghyfraith y diweddar Barch John Pritchard, Pentrecastell, Llanberis, Mehefin 7, 1854.—Bu farw mewn canlyniad i ddamwain a'i cyfarfyddodd yn Victoria.

120. Thomas O. Thomas, Brynllys, Dinorwig, Mehefin 12, 1854.—Cyfarfyddodd â'i ddiwedd trwy i ran o'r graig ymollwng arno, yn y rhan a elwir yn bresennol Blaen Swallow.
121. William J. Owens, Parc, Llanrug, Mehefin, 1854.—Trwy ddamwain yn y rhan isaf o'r chwarel.
122. Owen D. Jones, Ty'n'rallt, Rhagfyr, 1854.—Bu farw mewn canlyniad i syrthio yn Victoria.
123. Robert E. Williams, Ebenezer, Chwefror 12, 1854.—Darn o'r graig yn ymollwng arno yn Ponc Lefel, Garet.
124. John E. Evans, Garnedd, a brawd i'r Parch Robert Ellis, Ysgoldy, Gorphenaf 20, 1855.—Cael ei ddirwasgu gan blyg yn yr Allt Ddu.
125. David Thomas, Ceunant, Llanberis, Mehefin 8, 1855.—Cyfarfu â'i angau trwy syrthio wrth fyned adref oddiwrth ei waith.
126. Henry Roberts, Galltyfoel, Llandinorwig,
127. Evan Rowland, Tanllan, Llanrug, a
128. John Price, Minffordd, Dinorwig, Medi 17, 1855.—Cyfarfu y tri uchod â'u hangau trwy fygu mewn sinc chwe' llath o ddyfnder yn y Braich.
129. Morris Pritchard Davies, Braich Poeth, Dinorwig, Mawrth 27, 1855.—Collodd ei fywyd trwy i domen y Garet redeg pan yr ydoedd yn ei chrocsi wrth fyned adref oddiwrth ei waith.
130. Thomas M. Gabriel, Waenfawr, Hydref, 1855.—Collodd ei fywyd yn y rhan isaf o'r chwarel.
131. Evan O. Evans, Llwyncoed, Cwmyglo, Tachwedd 27, 1855.—Syrthio dan gerbydres y chwarel.
132. Robert Williams, Ty Canol, Llandinorwig, (Roe Wen, gynt), Mai 22, 1856.—Cyfarfyddodd â'i angau trwy i ran o'r graig ymollwng arno ef a'i bartner (yr hwn a wellhaodd wedi hyny) yn Ponc Rowlar, Garet, gan ei ladd yn y fan.
133. David D. Williams, Celyn Bach, Llanddeiniolen, Tachwedd 6, 1856.—Cael ei daro gan gareg oddiwrth ergyd yn Ponc Lefel, Garet.
134. Richard R. Thomas, Gaerwen, Mon, Ebrill, 1857.—Collodd ei fywyd trwy ddamwain yn Victoria.

135. Richard R. Jones, Ebenezer, Mai 22, 1857.—Cael ei ddirwasgu gan blyg mawr yn Swallow.
136. Griffith Morris, Ty Danw, Cwmyglo, Gorphenaf 22, 1857.—Cyfarfyddodd â damwain angeuol yn y Gilfach Ddu.
137. Thomas T. Griffiths, Cwm Eilir, Llanberis, Medi 11, 1857.—Cyfarfyddodd â damwain angeuol mewn rhan o Victoria.
138. Hugh Griffiths, Tai Newyddion, Llanrug, a
139. John Roberts, Cae Glas, Llanrug, Ionawr 23, 1858.—Collasant eu bywydau yr un amser tra yn dychwelyd adref oddiwrth eu gwaith mewn "car gwyllt," trwy iddo redeg oddiar y cledrau a dymchwel i lyn Padarn, ac i'r ddau druain anffodus foddi.
140. Owen Evans, Bryniau, Dinorwig, Gorphenaf 8, 1858.—Syrthio o ben ei "fargen."
141. Robert Williams (Dyffryn), Cerigynyth, Gorphenaf 31, 1858.—Marw mewn canlyniad i falurio ei goes yn Sinc Twllyclawdd.
142. John Roberts, brodor o sir Ddinbych, Mai 25, 1858.—Nis gallwn gofnodi cauw y rhan o'r gwaith y cymerodd y ddamwain hon le.
143. Owen Lewis, Cae Glas, Llanddeiniolen, Chwefror 19, 1859.—Marw mewn canlyniad i falurio ei goes yn Pantyceubren.
144. John H. Pritchard, "Didfa," Mai 13, 1859.—Collodd ei fywyd mewn rhan o'r Diphwys.
146. Thomas J. Closs, Tanycapel, Llanberis, Mai 25, 1859.—Cyfarfyddodd â damwain angeuol mewn rhan o Victoria.
146. John Edwards, Llanrug, Mehefin 20, 1859.—Collodd ei fywyd trwy i blyg wyth tunell o bwysau (islaw yr hwn yr oedd yn ymochel rhag ergydion) ymollwng arno mewn rhan o'r Diphwys.
147. John Parry, Waen, Llanddeiniolen, Mehefin 20, 1859.—Bu farw mewn canlyniad i syrthio o'r elogwyn yn y Gilfach Ddu.
148. Rhys Williams, Cwm Eilir, Llanberis, Medi 1, 1859.—Collodd ei fywyd yn Victoria.
149. Humphrey Jones, 'Stabl Goch, Llanberis, Mawrth 2, 1860.—Collodd ei fywyd trwy i raff yr ydoedd yn gweithio ynddi dori, a'i ollwng i ddyfnder mawr yn y Diphwys.

150. Medi 26, 1860, bu damwain angeuol i bedwar o bersonau na chawsom eu henwau yn y Gilfach Ddu.
151. Griffith J. Prichards, Pantygro, Tachwedd 17, 1860.—Collodd ei fywyd trwy i bylor mewn hollt danio arno yn Victoria.
152. John Jones, Cae'r Sais, Rhagfyr 5, 1860.—Cyfarfu â'i angau trwy i wagen lwythog o goed ddymchwel arno ar un o'r gelltydd yn Victoria.
153. William G. Morris, Cwm-y-glo, Rhagfyr 7, 1860.—Pylor mewn hollt yn tanio arno mewn rhan o Victoria.
154. William T. Roberts, Gwastadnant, Llanberis, Rhagfyr 11, 1860.—Bu farw mewn canlyniad i gael ei anafu yn y Braich.
155. David Hughes, Clynnog, Mawrth 15, 1861.—Nid ydyw y lle na'r modd y collodd ei fywyd yn wybyddus i ni.
156. William E. Ellis, Brynglas, Llanberis, Mehefin 10, 1861.—Bu farw trwy ddamwain yn Victoria.
157. John Abraham Williams, Clwt-y-bont, Awst 5, 1861.—Marw mewn canlyniad i blyg mawr ddryllio ei glun yn Mhonc Wyllt y Diphwys.
158. Robert E. Jones, Ty-bach-y-waen, Clwty bont, Awst 5, 1861.—Careg oddiwrth ergyd yn ei daraw yn ei ben gan ei ladd yn y fan yn yr Allt Ddu.
159. Owen O. Parry, Llanrug, Awst 15, 1861.—Collodd ei fywyd trwy i dwll danio arno yn Swallow.
160. William Griffiths, Pigyswch, Ebenezer, Medi 20, 1861.—Collodd ei fywyd trwy i sled ei daflu dros bont gallt Twllynwg, Garet.
161. David Jones, Cwmyglo, Hydref 8, 1861.—Cyfarfu â damwain yn y Braich yr hon a brofodd yn angeuol iddo.
162. Morris W. Owen, Groeslon, Llanrug, a
163. Owen W. Owen (dau frawd), Hydref 23, 1861.—Dau o fechgyn pur ieuainc a gollasant eu bywydau yr un amser pan yn myned ar hyd gallt y Braich yn y gwageni, trwy i'r rhaff dori a'u gollwng i lawr.

Aeth y flwyddyn 1862 heibio heb i un ddamwain angeuol gymeryd lle yn y chwarel hon.

164. Thomas Evans, Llangristiolus, Mon, Chwefror 25, 1863.—Dryllio ei ben yn sinc bach y Braich.
165. Morgan Roberts, bachgen Thomas Roberts (Twm 'Stiniog), Bryn Sardis, Dinorwig, Mai 16, 1863.—Rhaff yn tori ar Allt Isaf y Muriau, a'r trancedig yn cael ei ollwng i lawr gyda'r gwageni i'r gwaelod.
166. Evan Jones, Yr Odyn, Llanberis, Awst 20, 1863.—Cyfarfu â'i ddiwedd yn Victoria.
167. Michael E. Jones, Bwthdir, Llanberis, Tachwedd 10, 1863.—Marw mewn canlyniad i gael dryllio ei ddwy goes yn y Diphwys.
168. William J. Williams, Bryn Coch, Llanberis, Mawrth, 11, 1864.—Syrthio o'r clogwyn yn mhonc fawr Victoria.
169. Richard Jones, Llidiart-y-mynydd, Llanddeiniolen, Mawrth 27, 1864.—Careg yn ymollwng gan ei daraw yn ei ben yn Mhenrhydd, Garet.
170. Robert R. Ellis, Cae Canol, Fachwen, Gorphenaf 29, 1864.—Syrthio dan y gwageni yn y Muriau.
171. Evan J. Evans, Waenfawr, Awst 18, 1864.—Cael ei daraw yn ei ben gan gareg oddiwrth ergyd yn y Diphwys.
172. John Thomas, 'Rallt, Llanrug, Medi 14, 1864.—Bu farw mewn canlyniad i syrthio o'r graig yn ngwaelod y Braich.
173. Richard Jones, Bryn Du, Clwtybont, (Nefyn, gynt), Tachwedd 26, 1864:—Collodd ei fywyd trwy gael ei daraw yn ei ben gan gareg oddiwrth ergyd ar Allt Penrhydd, Garet.
174. Griffith J. Griffiths, Ebenezer, Tachwedd 16, 1864.—Syrthio yn Mhonc Rhowlar, Garet.
175. Robert Roberts, Trosgol, Llandinorwig, Ebrill 26, 1865.—Bu farw mewn canlyniad i ranau o'r graig ymollwng arno yn Tophet, Garet.
176. Hugh J. Morris, Clwtybont, Mehefin 25, 1865.—Pylor mewn hollt yn tanio arno gan ei daflu 22 llath.
177. Thomas Evans, Coedyddol, Llanberis, Rhagfyr 21, 1865.—Cafodd ei ladd ar Allt Victoria.

178. Edmwnd Parry, Ebenezer, a
179. William W. Williams, Ebenezer, Rhagfyr 30, 1865.—Collasant eu bywydau yr un amser trwy i ranau o'r graig ymollwng arnynt yn sinc Penrhydd, Garet.
180. William Williams, saer maen, Llanddanielfab, Mon, Ebrill 25, 1865.—Syrthio dan gerbydres y chwarel yn Mhontrhythallt.
181. Hugh Williams, Bwlchcaemawr, Llandinorwig, Rhagfyr 10, 1866.—Careg oddiwrth ergyd yn ei daraw yn ei ben yn Swallow, Garet.
182. William Jones, Amlwch, Mon, Mehefin 8, 1866.—Twll yn tanio arno yn y Gilfach Ddu.
183. Robert T. Philips, Llanberis, Ebrill 3, 1867.—Mewn canlyniad i gyfarfod â damwain ychydig ddyddiau yn flaenorol.
184. Thomas Hughes (mab David Hughes, Bryntych,) Ebenezer, Mai 29, 1867.—Syrthio oddiar gerbydres y chwarel.
185. William Roberts, Tai Newyddion, Llanrug, Hydref 10, 1867.—Cyfarfod â damwain angeuol yn y rhan isaf o'r chwarel.
186. Hen wr o Fon na chawsom ei enw, a fu farw mewn canlyniad i syrthio ger y ty y lletyai, sef ty Mrs Jones, Frondeg, Dinorwig, Rhagfyr 17, 1867.
187. Ellis Williams, Gilwern, Rhostryfan, Ionawr 21, 1868.—Syrthio o'r Diphwys Fawr i'r Bonc Wyllt yn Wellington.
